# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 09 Rhagfyr 2019

## SL(5)472 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu bod gwerth ardrethol hereditament annomestig yn cael ei ystyried yn swm sy'n hafal i'r rhent yr amcangyfrifir y gellid disgwyl yn rhesymol gosod yr hereditament amdano o flwyddyn i flwyddyn (yn ddarostyngedig i ragdybiaethau penodedig).

Yn yr achosion hynny pan nad oes gwybodaeth ar gael am y farchnad rentu gyffredinol ac na ellir defnyddio elw na cholled fel awgrym o werth rhent, penderfynir, yn hytrach, ar werth ardrethol hereditament annomestig drwy 'ddatgyfalafu' cyfanswm gwerth cyfalaf amcangyfrifedig yr hereditament i'w droi'n werth cyfatebol i rent blwyddyn. Rhagnodir y cyfraddau datgyfalafu drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer ardrethu annomestig a raglnodir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu cyfradd datgyfalafu is o 1.9 y cant ar gyfer eiddo addysgol, eiddo iechyd, eiddo amddiffyn ac eiddo cyfleustra cyhoeddus a chyfradd safonol o 3.8 y cant ar gyfer pob math arall o eiddo.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 25 Tachwedd 2019

**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Tachwedd 2019

**Yn dod i rym ar:** 27 Ionawr 2020